**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**
**Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**
**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) Rheoliadau 2005 (Rheoliad 15)**

## Hysbysiad o Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn Adneuo ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (2018 – 2033)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi paratoi dogfennau cynigion cyn adneuo ar gyfer y cynllun uchod. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn disodli'r cynllun datblygu presennol ac yn sail i benderfyniadau ynghylch cynllunio defnydd tir ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r dogfennau cynigion cyn adneuo yn amlinellu gweledigaeth, dewisiadau strategol, y strategaeth a ffefrir a pholisïau allweddol yr Awdurdod, ac maent yn cynnwys gwybodaeth gefndirol allweddol ac adroddiad cychwynnol yr arfarniad o gynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr adroddiad amgylcheddol).

Mae'r dogfennau Strategaeth a Ffefrir a gwybodaeth gefndirol ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Mae copïau hefyd ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau agor arferol yn Swyddfeydd Dinesig y Cyngor, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr a phob llyfrgell gyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod oriau agor arferol y gellir cael manylion amdanynt ar wefan y Cyngor, neu drwy gysylltu â'r llyfrgell berthnasol.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yw 5pm ar 8 Tachwedd 2019.

Cyflwynwch unrhyw sylwadau ar y ddogfen hon drwy yn ysgrifenedig drwy e-bost neu drwy'r post (gan ddefnyddio'r Ffurflen Sylwadau safonol ar gael ar-lein) fel a ganlyn:

- Ewch i: https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/cynllunio-datblygiadau/cynllun-datblygu-lleol-newydd-pen-y-bont-2018-to-2033/ymgynghoriadau-cyfredol-ar-y-cynllun-datblygu-lleol/ymgynghoriad-ar-y-strategaeth-i-ddisodli-r-cynllun-datblygu-lleol/

- Anfonwch Gopi o'r Ffurflen Ymgynghori mewn e-bost i: LDP@bridgend.gov.uk

- Postiwch Gopi o'r Ffurflen Sylwadau i:
  Cynllunio Datblygu, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

Nodwch fod yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â materion a phynciau a drafodir yn y Strategaeth a Ffefrir ac nid yw'n gyfle i wneud sylwadau manwl ar Wefannau Ymgeiswyr

unigol. Dylai'r holl sylwadau ymwneud â'r cwestiynau a gynhwysir ar ddiwedd pob Adran o'r Strategaeth a Ffefrir, sydd wedi eu cynllunio i'ch cynorthwyo chi gyda'ch sylwadau.

Bydd sylwadau a wneir yn briodol, ac a gyflwynir yn gywir o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig, yn cael eu cydnabod a'u hadrodd mewn modd priodol fel y gall y Cyngor eu hystyried.

Gellir cyflwyno cais gyda'r sylwadau i chi gael eich hysbysu ynghylch cam nesaf y Cynllun Datblygu Lleol a/neu fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cael archwiliad annibynnol a/neu fod y cynllun wedi ei fabwysiadu.

Dim ond sylwadau a gyflwynir yn unol â'r hysbysiad hwn y mae'n ofynnol i'r Awdurdod eu hystyried. Ni chaiff sylwadau a wneir adeg y cam cyn adneuo presennol eu hystyried gan yr Arolygydd a benodwyd i gynnal yr Archwiliad Annibynnol. Bydd cyfle arall i gyflwyno sylwadau adeg y cam adneuo a bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried yn ystod yr archwiliad.

Mae rhagor o wybodaeth am broses y Cynllun Datblygu Lleol a dogfennau cefndir perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/ neu **Ffoniwch y Tîm Datblygu Cynllunio ar 01656 643168 i gael rhagor o wybodaeth.**

Richard Matthams
Rheolwr Cynllunio Datblygu